Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Telerau ac Amodau Cyllid

## *Chweched Dosbarth Awdurdodau Lleol*

## *Sefydliadau Addysg Bellach*

**Blwyddyn Academaidd 2025/26**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg |
This document is also available in Welsh
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys


Cyflwyniad ....3
Cymhwyso'r ddogfen hon ....3
Hawliau a Chyfrifoldebau Medr ....4
Diogelu arian cyhoeddus ....4
Talu cyllid yn unol â dddeddfwriaeth ....4
Hawl i atal taliadau cyllid ....5
Amgylchiadau lle bydd arian cyhoeddus yn dod yn ad-daladwy ....6
Archwilio data ....6
Cyfrifoldebau'r sefydliad i Medr ac i ddysgwyr ....7
Cyfrifoldeb y corff llywodraethu dros gydymffurfio â'r ddogfen hon ....7
Cyfansoddiad y corff llywodraethu ....8
Rôl a chyfrifoldebau'r swyddog atebol ....8
Sicrhau darpariaeth addysg o safon ....9
Monitro cwynion ....11
Defnydd priodol o arian cyhoeddus ....11
Gofyniad am Ddysgu Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog ....13
Cymalau cyllido penodol ....14
Cyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol i Medr ....15
Partneriaethau a rhannu data ....16
Rheoli'r ystâd yn ddoeth ....17
Paratoi datganiadau ariannol ac archwilio ....17
Hawl mynediad Medr ar gyfer ymchwiliadau ....18
Materion Eraill ....18
Diwygiadau i'r ddogfen hon ....18
Dehongli datganiadau yn y ddogfen hon ....18
Llofnod y Swyddog Atebol ....19
Llofnod y Cyfarwyddwr Cyllid (neu gyfwerth) ....19
Atodiad A: Geirfa ....20

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r telerau a'r amodau ar gyfer cyllid a ddarperir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr). Dyfernir y cyllid yn unol â'r amodau a nodir isod ac fe'i rhoddir o dan awdurdod Bwrdd Medr, sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 31 i 35 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, gan gynnwys yr adrannau hynny, yn unol â'r Cytundeb Asiantaeth rhwng Medr a Gweinidogion Cymru a wnaed o dan adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

2. Mae'r telerau ac amodau'n cefnogi cyfrifoldeb Medr i sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio at ddibenion darparu addysg, darparu cyfleusterau a chynnal unrhyw weithgareddau eraill i ddiben addysg, neu mewn cysylltiad ag addysg, yn y cyfnod 1 Awst 2025 hyd 31 Gorffennaf 2026.

3. Mae'r ddogfen hon yn cofnodi'r cytundeb rhwng Medr ac enw'r sefydliad sy'n cael cyllid gan Medr fel a nodir yn y cyhoeddiad Dyraniadau Cyllid Medr ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2025/26 ac unrhyw ddyraniadau cyllid dilynol a wneir yn ystod y cyfnod a grybwyllir uchod.

4. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, trwy gydol y flwyddyn, gall sefydliadau gael dogfennaeth sy'n cynnwys canllawiau trwy gyhoeddiadau rhaglen-benodol ar gyfer unrhyw weithgareddau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad Dyraniadau Cyllid blynyddol. Bydd y dogfennau hyn yn amlinellu'r rhwymedigaethau neu'r dyletswyddau y mae'n rhaid i'r sefydliadau eu cyflawni yn gyfnewid am yr arian hwnnw. Mae'n hanfodol darllen y telerau ac amodau hyn ar y cyd â'r dibenion a'r targedau a nodir yn y cyhoeddiadau rhaglen-benodol.

5. Rydym wedi ystyried nifer o egwyddorion arweiniol wrth lunio'r ddogfen hon. Dyma'r egwyddorion:
   a. Yr angen i gynnal hyder rhanddeiliaid yn y sector addysg bellach;
   b. Diogelu buddiannau'r dysgwr;
   c. Lleihau'r baich rheoleiddio hyd yr eithaf a chael gwared ar ddyblygu;
   d. Cydnabod ymreolaeth sefydliadau;
   e. Atebolrwydd rhesymol a chymesur; a
   f. Mabwysiadu dull cyson sy'n cyd-fynd â rhannau eraill o system addysg drydyddol Cymru

6. Caiff y diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon eu nodi yn '*Atodiad A: Geirfa*'.

## Cymhwyso'r ddogfen hon

7. Nid yw'r ddogfen hon yn diystyru gofynion statud y sefydliad (neu ddogfen gyfwerth) na'r gyfraith sy'n ymwneud â statud y sefydliad, ond bwriedir iddi eu hategu a'u hatgyfnerthu. Ni fydd dim yn y telerau ac amodau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r sefydliad weithredu mewn modd a fyddai'n anghyson â'i statud.

8. Pan fyddwn yn defnyddio'r term 'rhaid', mae hynny'n arwydd o ofyniad cyfreithiol penodol neu amod yn gysylltiedig â'r cyllid a ddarperir o dan y ddogfen hon. Rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â'r gofynion hyn, a gallai methu â gwneud hynny beri bod Medr yn adennill cyllid ac/neu'n peidio â'i ddarparu o dan delerau'r ddogfen hon.

Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau a ystyrir gennym yn arfer da sylfaenol, ond nad oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol ar eu cyfer, neu lle nad ydym yn gosod amod yn gysylltiedig â chyllid o dan y ddogfen hon.

9. O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn, o fewn canllawiau dilynol, yn atodi gofynion gorfodol ychwanegol i amodau'r cyllid, ar ôl cynnal ymgynghoriad priodol â'r sector..

10. Daw'r ddogfen hon i rym ar 1 Awst 2025, ac mae'n trafod y cyfnod 1 Awst 2025 hyd 31 Gorffennaf 2026.

11. Mae'r telerau ac amodau'n cwmpasu'r holl gyllid a ddyrennir i sefydliadau addysg bellach a chweched dosbarth awdurdodau lleol a dylid eu hystyried ochr yn ochr ag unrhyw ganllawiau ychwanegol y gellir eu cylchredeg ochr yn ochr â ffrydiau cyllid penodol.

## Hawliau a Chyfrifoldebau Medr

### *Diogelu arian cyhoeddus*

12. Mae Prif Weithredwr Medr wedi'i benodi'n Swyddog Cyfrifyddu. Gan hynny, mae'n gyfrifol ac yn atebol i Lywodraeth Cymru am sicrhau bod y cyllid a dderbynnir gan Weinidog Addysg Cymru (neu ei olynydd) yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion y cafodd ei roi ar eu cyfer, ac mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio â'r amodau cysylltiedig. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo gwerth da am arian drwy grantiau a delir i'r sefydliad a chanllawiau cysylltiedig.

13. Mae'r holl gyllid a ddarperir gan Medr ar gael yn amodol ar ddefnydd o'r cyllid hwnnw.

14. Rhaid i Medr fod yn hyderus bod gan y sefydliadau y mae'n eu cyllido drefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu digonol ac effeithiol i ddiogelu'r arian cyhoeddus a fuddsoddir a threfniadau i gyflawni gwerth am arian o arian cyhoeddus.

15. Mae gan Medr fuddiant rheoleiddiol i sicrhau bod sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus yn darparu gwerth am arian a'u bod yn gyfrifol o ran sut y maent yn defnyddio'r arian hwn. Mewn achosion lle adnabyddir yr angen i wella byddwn yn disgwyl i'r sefydliad gymryd camau cywirol sy'n ddigon i ymdrin â'r materion.

16. Lle mae Medr yn adnabod pryderon ynghylch perfformiad sefydliad trwy'r adroddiadau ar ddeilliannau dysgwyr neu arolygiadau Estyn, disgwylir i'r sefydliad ddarparu tystiolaeth i Medr o gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i ymdrin â'r pryderon hyn, a all gynnwys dogfennaeth i ddangos tystiolaeth o ymgysylltu gan y bwrdd a dangos sut y mae'r materion yn cyfrannu at gynllun gwella'n barhaus y sefydliad.

### *Talu cyllid yn unol â ddeddfwriaeth*

17. Gwneir taliadau i'r sefydliad gan Medr i gefnogi gweithgareddau a bennir yn adrannau 31 i 35, yn gynhwysol, o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

18. Nid yw Medr yn gwneud unrhyw ymrwymiad i adnewyddu neu barhau â chyllid ar ôl i tymor y Cytundeb hwn ddod i ben, ac ni fydd yn atebol am unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir gennych chi naill ai yn ystod neu ar ôl y Cyfnod Cyllido.

19. Bydd taliadau'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, yr amodau a nodir yn y ddogfen hon, a'r telerau ac amodau y gall Medr eu rhagnodi o bryd i'w gilydd yn unol â Deddfau 2000 a 2006, ac ar ôl yr ymgynghoriad sy'n ofynnol. Yn unol ag adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd taliadau cyllid yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau y gall Medr eu gosod, gan gynnwys y rhai a nodir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, ni fydd y telerau ac amodau hyn yn ymwneud â defnydd y sefydliad o unrhyw gyllid nad ydynt wedi'u darparu gan Medr. Nid ydym am wrthannog y sefydliad rhag cynnal neu ddatblygu ei gyllid ei hun o ffynonellau eraill ar wahân i Medr.

20. Bydd Medr yn talu'r holl gyllid i'r sefydliad yn unol â phroffil o daliadau y gellir hysbysu'r Cyfarwyddwyr Addysg/Prif Weithredwyr/Penaethiaid ac/neu Benaethiaid/Cyfarwyddwyr Cyllid yn ei gylch drwy e-bost.

### *Hawl i atal taliadau cyllid*

21. Yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, caiff Prif Weithredwr Medr atal taliadau cyllid, naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl, ac naill ai'n barhaol neu dros dro, os yw'n barnu ei bo hi'n briodol ac yn rhesymol gwneud hynny er mwyn diogelu arian cyhoeddus.

22. Ceidw Medr yr hawl i osod sancsiynau ariannol ar sefydliad a/neu i dynnu cyllid yn ôl oddi wrth sefydliad lle mae Medr o'r farn bod gwendidau difrifol yn y ddarpariaeth a bod gofyn ei gwella'n sylweddol.

23. Mae Medr yn disgwyl i sefydliadau ymgysylltu â ni ac ymdrin â materion cyn bod angen i ni roi ein hymyrraeth statudol ar waith.

24. Cyn rhoi ymyrraeth statudol ar waith, bydd Medr yn cynnal cyswllt anffurfiol neu ffurfiol â sefydliadau.

25. Os na fydd sefydliad yn gweithredu unrhyw gamau y cytunwyd arnynt, bydd Medr yn gofyn am esboniadau ac, os yw'n briodol a bod hynny wedi'i gyfiawnhau, yn rhoi rhybuddion i wella

26. Os yw'r sefydliad yn dal i fethu ag ymdrin â'r risgiau a'r materion, yna bydd y sefydliad yn cael ei hysbysu y bwriedir cymhwyso un neu fwy o'r camau rheoleiddiol. Dewis olaf un yw hyn a cham gweithredu na fyddem yn disgwyl ei gymryd yn aml.

27. Dyma'r ddau gam diogelu sydd ar gael i Medr, ac a allai gael eu defnyddio os yw pob ymgais arall i sicrhau cydymffurfiaeth yn aflwyddiannus:
    a. Ariannol – drwy adennill cyllid grant neu wrthod mynediad at gyllid grant yn y dyfodol, gan gynnwys mynediad at grantiau penodol neu at gyllid dewisol. Yn y pen draw, gall Medr dynnu cyllid yn ôl yn gyfan gwbl, os bydd amgylchiadau'n cyfiawnhau camau o'r fath; a

b. Gwybodaeth – drwy gyhoeddi ein pryderon am sefydliad lle ceir rhesymau cryf dros wneud hynny a lle bo hynny er budd y cyhoedd neu'r holl ddysgwyr (dysgwyr cyfredol a darpar ddysgwyr, a chyn-ddysgwyr lle bo'n berthnasol).

28. Yn ogystal â hynny, gall Medr:
   a. roi cyngor i'r Comisiwn Elusennau lle gallai sefydliad fod wedi torri ei rwymedigaethau elusennol; ac/neu
   b. roi cyngor i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol lle gallai achos o wahaniaethu fod wedi digwydd.

***Amgylchiadau lle bydd arian cyhoeddus yn dod yn ad-daladwy***

29. O dan adrannau 31 i 35 gan gynnwys y rhannau hynny o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, gall Medr ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad ad-dalu, yn llwyr neu'n rhannol, arian a gafodd gan Medr os yw'r sefydliad yn methu â chydymffurfio ag unrhyw delerau ac amodau y mae Medr yn eu cysylltu â thalu'r arian.

30. Gall Medr ofyn i sefydliad ad-dalu arian os yw wedi derbyn gormod o gyllid.

31. Mae gan Medr gyfrifoldeb i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a gyllidir ganddo'n cael ei asesu ac fe geidw'r hawl i osod sancsiynau ariannol ar sefydliad a/neu i dynnu cyllid yn ôl oddi wrth sefydliad lle mae Medr o'r farn bod gwendidau difrifol yn ansawdd y ddarpariaeth. Bydd Medr yn amcanu at weithio gyda sefydliadau yn y lle cyntaf er mwyn gallu ymdrin â materion os yn bosibl.

32. Mae Medr hefyd yn cadw'r hawl i fynnu bod y sefydliad yn talu llog ar ddau y cant uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr, mewn perthynas ag unrhyw gyfnod y mae swm sy'n ddyledus i Medr o dan y Telerau ac Amodau Ariannu hyn, neu unrhyw amod arall, yn parhau i fod heb ei dalu.

***Archwilio data***

33. Rhaid i Medr ei argyhoeddi ei hun bod gan gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) sefydliad drefniadau priodol ar gyfer rheolaeth fewnol (gan gynnwys rheoli ariannol a chyfrifyddu), a bod arian Medr yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y'i darparwyd ar eu cyfer.

34. Yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, dylai Prif Weithredwr Medr hysbysu corff llywodraethu'r sefydliad (neu gorff cyfwerth) ac/neu ei bwyllgor archwilio os oes ganddo bryderon difrifol ynghylch materion ariannol neu system rheolaethau mewnol y sefydliad.

35. Archwilydd Cyffredinol Cymru, pennaeth Archwilio Cymru, yw archwilydd allanol Llywodraeth Cynulliad Cymru a Medr. Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawl i archwilio cyfrifon unrhyw sefydliad sy'n derbyn cyllid gan Medr ac i gynnal ymchwiliadau gwerth am arian.

36. Gall yr holl ddata a ddefnyddir mewn cyfrifiadau cyllido fod yn destun archwiliad data allanol. Gall data eraill a ddefnyddir gan Medr i ddibenion monitro neu ddadansoddi hefyd gael eu cynnwys yng nghwmpas archwiliad allanol. Gellir

addasu cyllid yn sgil gwallau heu hepgoriadau a ganfyddir wrth archwilio, os yw'r rheiny wedi achosi i'r sefydliad dderbyn dyraniad uwch o gyllid nag y byddai wedi gwneud fel arall.

37. Rhaid ichi gadw'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r Cyllid am chwe blynedd neu ddeng mlynedd o'r dyddiad olaf pan dalwyd y cyllid, fel yr amlinellir yn Rhestr Cadw a Gwaredu Llywodraeth Cymru.

## Cyfrifoldebau'r sefydliad i Medr ac i ddysgwyr

### *Cyfrifoldeb y corff llywodraethu[1] dros gydymffurfio â'r ddogfen hon*

38. Corff llywodraethu'r sefydliad sy'n gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â Thelerau ac Amodau Cyllid a chanllawiau cysylltiedig.

39. Mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau gwerth am arian o arian cyhoeddus. Rhaid iddo barhau i adolygu ei drefniadau ar gyfer rheoli'r holl adnoddau sydd o dan ei reolaeth, gan ystyried canllawiau ar arfer da a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan Medr, Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru.

40. Mae corff llywodraethu'r sefydliad yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, y telerau hyn, ac unrhyw amodau eraill y gall Medr eu rhagnodi o bryd i'w gilydd, y gellir defnyddio'r arian a dderbynnir gan Medr.

41. Rhaid i'r corff llywodraethu arfer ei ddoethineb yn rhesymol wrth defnyddio arian cyhoeddus ac ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol ar atebolrwydd neu briodolrwydd a gyhoeddir o dro i dro gan Medr, Archwilio Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Cyhoeddus Senedd Cymru.

42. Rhaid bod gan y corff llywodraethu a rhaid ei fod yn cymhwyso polisïau cydraddoldeb sy'n cwmpasu cyflogaeth, defnyddio gwirfoddolwyr a darparu gwasanaethau, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

43. Dylai'r corff llywodraethu ddilyn polisi cyflog y sector cyhoeddus trwy ystyried tegwch, yr angen i recriwtio, cymell a chadw staff a fforddiadwyedd o fewn y terfynau a bennir gan y setliad grant, a thrwy ystyried Canllawiau Cyflog a Thelerau'r Sector Cyhoeddus.

44. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Archwilio Llywodraeth Cymru 2015 ac unrhyw gyfarwyddiadau eraill a lunnir ac a gyhoeddir gan Medr mewn ymgynghoriad â sefydliadau.

---

[1]Nid endidau cyfreithiol ar wahân yw'r chweched dosbarth a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ond rhan o ysgol a gynhelir sy'n cynnig darpariaeth ôl-16. Rhaid i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys ei darpariaeth chweched dosbarth, gael corff llywodraethu gyda chyfansoddiad o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
Mae pob sefydliad addysg bellach (SAB) yng Nghymru yn gorff corfforedig annibynnol, a rhaid i fwrdd llywodraethu lywodraethu drosto. Nodir eu trefniadau llywodraethu yng Ngorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006 a Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014.

### *Cyfansoddiad y corff llywodraethu*

45. Dylai sefydliadau addysg bellach ddilyn y fframwaith arfer gorau ar gyfer llywodraethu a amlinellir yn y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru.

46. Rhaid bod gan bob ysgol a gynhelir gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Gwneir y rheoliadau hyn dan Ddeddf Addysg 2002, Rhan 3, Pennod 1, sy'n nodi'r fframwaith ar gyfer sefydlu cyrff llywodraethu.[2]

47. Lle mae aelod o'r corff llywodraethu neu un o'i bwyllgorau, neu glerc i un o'r rhain, yn gadael ei swydd oherwydd anghytundeb, diswyddiad neu ymddiswyddiad dan orfod, rhaid i'r swyddog atebol hysbysu Medr ar unwaith ynghylch y rhesymau dros yr ymadawiad.

### *Rôl a chyfrifoldebau'r swyddog atebol*

48. Rhaid i'r corff llywodraethu ddynodi unigolyn (pennaeth y sefydliad fel arfer, ond nid o reidrwydd) fel y 'swyddog atebol' i gynorthwyo a galluogi'r corff llywodraethu i gyflawni ei gyfrifoldebau i adrodd wrth Medr.

49. Mae'r swyddog atebol yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond yn unol â'r Cytundeb hwn, ac unrhyw amodau eraill a ragnodir gan Medr o bryd i'w gilydd, y defnyddir arian a dderbynnir gan Medr. Dylid rheoli cyllid yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

50. Efallai y bydd yn ofynnol i'r swyddog atebol ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, ochr yn ochr â Phrif Weithredwr Medr, ar faterion sy'n ymwneud â grantiau i'r sefydliad.

51. Rhaid i'r swyddog atebol hysbysu'r corff llywodraethu ar unwaith os ymddengys i'r swyddog atebol, ar unrhyw adeg, fod unrhyw gamau neu bolisi sy'n cael eu hystyried gan y corff llywodraethu yn anghydnaws â thelerau'r ddogfen hon. Os bydd y corff llywodraethu yn penderfynu bwrw ymlaen serch hynny, rhaid i'r swyddog atebol hysbysu Prif Weithredwr Medr mewn ysgrifen ar unwaith.

52. Rhaid i'r swyddog atebol hysbysu Medr ar unwaith pan fo deiliad unrhyw uwch swydd wedi ymddiswyddo neu wedi cael ei symud o'i swydd oherwydd anghytundeb, diswyddiad neu ymddiswyddiad dan orfod.

53. Rhaid i swyddog atebol y sefydliad hysbysu Medr ynghylch unrhyw wendid difrifol. Diffinnir 'gwendid difrifol' fel un sydd wedi arwain at, neu a allai arwain at, golli swm sylweddol o arian neu risg sylweddol i eiddo, gwaith, data, buddiolwyr neu enw da sefydliad. Mae hyn yn cynnwys gwendidau difrifol yr hysbyswyd rheoleiddiwr arall yn eu cylch.

[2] Ceir manylion llawn yn nogfen Llywodraeth Cymru Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion.

54. Os yw cyllidwr neu reoleiddiwr heblaw Medr wedi adnabod gwendid difrifol, neu'n ymchwilio i wendid difrifol, rhaid i'r swyddog atebol wneud Medr yn ymwybodol o hyn.

55. Dylai'r swyddog atebol hysbysu Medr ynghylch unrhyw dwyll sydd, er nad yn sylweddol, yn dynodi gwendid difrifol mewn rheolaeth ariannol a'r cam gweithredu y mae'r sefydliad yn ei gymryd i ymdrin â'r gwendid hwn.

56. Dylai swyddog atebol y sefydliad hysbysu Medr am unrhyw dwyll a adroddir i'r Heddlu, a gyflawnwyd mewn gwirionedd neu a allai fod wedi cael ei gyflawni.

57. Rhaid i'r swyddog atebol baratoi adroddiad hunanasesu (SAR) a chynllun gwella ansawdd ar ran y coleg. Rhaid iddynt hysbysu Medr ynghylch unrhyw wendidau difrifol mewn perthynas ag ansawdd a adnabuwyd trwy'r prosesau hyn. Bydd gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei rhannu heb geisio caniatâd gan y sefydliad yn gyntaf.

58. Rhaid i'r swyddog atebol hysbysu Medr ynghylch unrhyw achosion lle nad yw gwrthdaro buddiannau a digwyddiadau chwythu'r chwiban wedi cael eu rheoli yn unol â pholisi'r coleg. Dylid hysbysu Medr ynghylch y rhain ar unwaith. Bydd gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei rhannu heb geisio caniatâd gan y sefydliad yn gyntaf.

59. Rhaid i'r swyddog atebol hysbysu Medr ynghylch unrhyw achos o dorri deddfwriaeth y DU neu beidio â chydymffurfio â hi.

60. Os oes tystiolaeth, ym marn Prif Weithredwr Medr, o wendid difrifol mewn perthynas â goruchwylio a rheoli arian cyhoeddus, bydd yn codi hyn fel y bo'n briodol gyda'r swyddog atebol dan sylw, cadeirydd y corff llywodraethu neu'r ddau; yn darparu'r dystiolaeth berthnasol; ac yn ceisio ymateb ac yn ei ystyried.

### ***Sicrhau darpariaeth addysg o safon***

61. Mae gan Medr gyfrifoldeb statudol i fonitro ansawdd addysg drydyddol a hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno. Mae Medr yn ymgynghori ynghylch ei fframwaith rheoleiddio, gan gynnwys Fframwaith Ansawdd, a fydd yn nodi sut y bydd hyn yn cael ei wneud. Bydd y fframwaith newydd yn berthnasol o fis Awst 2026.

62. Mae dyletswydd statudol ar Estyn i archwilio amrywiaeth eang o addysg drydyddol. Bydd yn cynnal arolygiadau rheolaidd o sefydliadau a bydd yn adrodd ar y deilliannau, gan gynnwys argymhellion. Rhaid i sefydliadau baratoi cynllun gweithredu i ymdrin ag argymhellion arolygwyr, a bydd hwn yn cael ei fonitro gan Estyn. Byddwn yn cynnal cyswllt ag Estyn ynghylch sefydliadau a gyllidir sy'n cael eu rhoi mewn categori dilynol ar ôl arolygiad.

63. Nid yw Estyn yn arolygu darpariaeth Chweched Dosbarth ysgol ar wahân ac nid yw'n ffurfio barn ynglŷn â gweithgarwch dilynol mewn perthynas â'r chweched dosbarth mewn ysgol ar wahân i'r ysgol gyfan. Felly, gellir darllen deilliannau a barnau arolygu mewn perthynas â gweithgarwch dilynol ar gyfer yr ysgol gyfan fel rhai sy'n berthnasol i ddarpariaeth chweched dosbarth yr ysgol. Yn dilyn arolygiad

mae’n ofynnol i bob ysgol baratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad o fewn 20 niwrnod gwaith i gyhoeddi ei hadroddiad arolygu a hwnnw’n nodi sut y mae’n mynd i ymdrin â’r argymhellion a wnaed.

64. Ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol am fonitro ac ymyrryd lle ceir pryderon ynghylch safonau mewn ysgolion. Fodd bynnag, lle mae awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau gwella ysgolion i gyflawni’r rôl gwella ysgolion ar ran yr awdurdod lleol fel rheol bydd y gwasanaeth gwella ysgolion yn cyflawni neu’n broceru strategaethau gwella ysgolion ac yn monitro cynnydd ysgolion, gan weithio mewn partneriaeth gyda’r awdurdod lleol. Lle mae ysgol yn cael ei gosod mewn categori ffurfiol gan Estyn ac y canfyddir bod “Gwelliant Sylweddol” neu “Fesurau Arbennig” yn ofynnol, dylai’r awdurdod lleol a’r gwasanaeth gwella ysgolion gydweithio’n agos gyda’r ysgol i roi cymorth i lunio’r cynllun gweithredu ôl-arolygiad i ymdrin â'r gwendidau a adnabuwyd yn ystod yr arolygiad. Bydd Estyn yn parhau i fonitro’r ysgolion hyn nes bod Prif Arolygydd Addysg Ei Fawrhydi o’r farn y gellir tynnu’r ysgol o restr yr ysgolion mewn categori statudol.

65. Ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion, mae gan awdurdodau lleol a Medr bwerau i ymyrryd mewn ysgol sy’n peri pryder. Disgwylir mai awdurdodau lleol fydd yn gweithredu yn y lle cyntaf i gymryd unrhyw gamau gweithredu gofynnol dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, fel a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, Ysgolion sy’n peri pryder: canllawiau statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol.

66. Ar gyfer y ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, lle adnabyddir diffygion trwy arolygiad gan Estyn, rhaid i’r Bartneriaeth sefydlu cynllun gweithredu manwl ag amcanion a thargedau penodol i ymdrin â’r diffygion hyn. Rhaid i’r awdurdod lleol ymgysylltu’n llawn fel partner i ddatblygu’r cynllun gweithredu a’i roi ar waith. Lle mae deilliannau arolygiad yn arwain at osod partneriaeth yn un o gategorïau Estyn ar gyfer gweithgarwch dilynol, bydd Medr yn cynnal cyswllt ag Estyn, a fydd yn goruchwylio’r broses o roi’r cynllun gweithredu sy’n deillio o hynny ar waith.

67. Lle mae Medr yn adnabod pryderon ynghylch perfformiad Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned trwy’r broses Adroddiad ar Ddeilliannau Dysgwyr, rhaid i’r Bartneriaeth neu’r sefydliad arweiniol ddangos trwy ei g/chylch cynllunio parhaus ar gyfer datblygu ansawdd sut y mae’n ymdrin â’r pryderon. Disgwylir i’r bartneriaeth ddarparu tystiolaeth ar gyfer Medr o gamau gweithredu a gymerir i ymdrin â’r pryderon hyn, a all gynnwys dogfennaeth i ddangos tystiolaeth o ymgysylltiad y bwrdd, a dangos sut y mae’r materion yn goleuo cynllun gwella’n barhaus y sefydliad.

68. Dylai sefydliadau ddefnyddio data megis Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyflawniad) ac Adroddiadau ar Ddeilliannau Dysgwyr (LOR) yn eu hunanwerthusiadau, ac i bennu targedau ar gyfer gwella lle y bo’n briodol.

69. Mae'n ofynnol i Sefydliadau Addysg Bellach gynnal gwerthusiad o'u darpariaeth ar gyfer Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS) gan ddefnyddio'r fframwaith hunanwerthuso a ddatblygwyd gan ColegauCymru. Mae'n ofynnol i sefydliadau ddarparu copi o'u hadroddiad gwerthuso ar gais gan Medr.

***Monitro cwynion***

70. Rhaid bod gan sefydliadau broses gadarn i ymdrin â chwynion a gyflëir gan ddysgwyr, staff a thrydydd partïon. Dylid darparu adroddiad ar gwynion ar gyfer cyrff llywodraethu o leiaf yn flynyddol, a hwnnw'n rhoi sicrwydd i'r Corff Llywodraethu bod cwynion yn cael eu rheoli'n briodol.

***Defnydd priodol o arian cyhoeddus***

71. Ni ddylid defnyddio cyllid Medr fel cymhorthdal ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn rhai cyhoeddus.

72. Rhaid i sefydliad sy'n cyflenwi darpariaeth ôl-16 a gyllidir gan Medr gydymffurfio â gofynion y Memorandwm Ariannol.

73. Rhaid i'r sefydliad ddefnyddio cyllid Medr ar gyfer y gweithgareddau sy'n gymwys i dderbyn cyllid, fel y nodir yng Nghanllaw a Chyfeiriadur Rhaglenni'r Fframwaith Cyllido Ôl-16 a Chanllaw Dysgu Oedolion yn y Gymuned pa un bynnag sydd fwyaf perthnasol. Mae'r amod hwn hefyd yn berthnasol lle bo'r sefydliad yn trosglwyddo rhan o'i grant gan Mer i endid sydd ar wahân yn gyfreithiol er mwyn darparu gweithgaredd sy'n gymwys ar gyfer cyllid. Mae hynny'n cynnwys lle bo darpariaeth yn cael ei chyflenwi drwy drefniadau is-gontractio neu drwy is-gwmni.

74. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod eu cynnig cwricwlwm lleol ôl-16 yn bodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, drwy ddarparu o leiaf 30 o gyrsiau, gyda 5 ohonynt yn gyrsiau galwedigaethol. Rhaid i'r cyrsiau galwedigaethol fod ar draws y 3 maes, ac mae'n rhaid i un ohonynt fod yn fathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg.

75. Dylai sefydliadau sicrhau nad ydynt yn defnyddio cyllid Medr i ddatblygu, na chaniatáu datblygu, darpariaeth addysg ôl-16 sy'n dyblygu neu'n tanseilio unrhyw ddarpariaeth dysgu a geir eisoes neu a gynllunnir gan sefydliadau addysg bellach eraill, ysgolion a gynhelir ac nas cynhelir neu ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith yn eu hardal leol.

76. Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod pob dysgwr sydd wedi cofrestru mewn rhaglenni Chweched Dosbarth o fewn eu hawdurdodaeth wedi cael cyfle i gael y canlynol ymlaen llaw:

   a. cyngor gyrfaoedd annibynnol gan Gyrfa Cymru; a
   b. gwybodaeth am bob opsiwn dysgu ôl-16 gan gynnwys Addysg Bellach, Addysg Uwch a llwybrau Prentisiaeth.

77. Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod pob ysgol sy'n cynnig darpariaeth Chweched Dosbarth yn eu hardal yn darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr i'w myfyrwyr. Mae gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn cynnwys hyfforddiant dysgu, cymorth personol, gwybodaeth am yrfaoedd a chyngor ac arweiniad arall sy'n anelu i helpu dysgwyr i wneud dewisiadau deallus a realistig a gwireddu eu potensial. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gadw at ganllawiau statudol o ran cymorth i ddysgwyr.

78. Rhaid i Awdurdodau Lleol ddyrannu'r cyllid i ysgolion yn eu hardal yn unol â Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

79. Rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau nad oes unrhyw ffi dysgu yn cael ei chodi mewn perthynas ag addysg amser llawn neu ran-amser a ddarperir i ddysgwyr cymwys sydd wedi gorffen eu haddysg ysgol orfodol ond sydd heb gyrraedd 19 oed ar 31 Awst 2025.

80. Ni chaiff Awdurdodau Lleol gynnig cymhellion ariannol i fyfyrwyr chweched dosbarth er mwyn iddynt barhau i ddysgu. Lle canfyddir bod unrhyw ysgol wedi gwneud hyn, bydd arian yn cael ei hawlio'n ôl yn llawn gan yr awdurdod lleol.

81. Ni chaiff Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r cyllid i:
   a. dalu staff a gyflogir mewn ysgolion sy'n cyflenwi darpariaeth Chweched Dosbarth fesul awr;
   b. cefnogaeth ar gyfer prosiectau cyfalaf;
   c. cefnogaeth ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol; ac
   d. addysg i ddysgwyr cyn-16 oed.

82. Ni chaiff Awdurdodau Lleol drosglwyddo unrhyw gyllid gan Medr i drydydd parti na chaniatáu i ysgol drosglwyddo unrhyw swm o'r cyllid i drydydd parti i gyflenwi unrhyw raglen newydd, heb gael caniatâd ysgrifenedig Medr ymlaen llaw ar gyfer hynny. Nid yw'r ymrwymiad hwn yn berthnasol i gyllid Medr a ddefnyddir ar gyfer darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned na chyllid a drosglwyddir i Sefydliad Addysg Bellach yng Nghymru fel rhan o gyflwyno'r Cynnig Cwricwlwm Lleol ôl-16.

83. Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i wirio hunaniaeth a chymhwysedd dysgwyr wrth iddynt gael eu derbyn, gan gynnwys cymwysterau blaenorol, ac i fonitro presenoldeb dysgwyr.

84. Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach ddarparu asesiadau ac arweiniad priodol i ddysgwyr wrth recriwtio er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, fod dysgwr yn ymrestru ar raglen ddysgu:
   a. sy'n gydnaws â'i gynlluniau gyrfa a datblygu; ac
   b. y bydd eisiau, ac yn gallu, ei chwblhau.

85. Dylai Sefydliadau Addysg Bellach greu Cytundeb/Cynllun Dysgu Unigol ar gyfer pob dysgwr sy'n dilyn rhaglenni amser llawn a darpariaeth Cyfrif Dysgu Personol.

86. Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach gymryd rhan 1yng nghynlluniau cymorth dysgwyr Medr yn unol â'r canllawiau i sefydliadau ar gynlluniau penodol.

87. Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach sicrhau na chodir unrhyw ffioedd dysgu:
   a. am gymwysterau cymeradwy i ddysgwyr sydd yn hŷn nag oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed ar neu cyn 31 Awst 2025; a
   b. mewn perthynas â dysgwyr amser llawn a rhan-amser sy'n dilyn cymwysterau Sgiliau Sylfaenol, Sgiliau Hanfodol Cymru a chymwysterau ESOL hyd at ac yn cynnwys lefel 1.

88. Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach sicrhau nad oes ffi mynediad yn cael ei chodi gan ddysgwyr sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt eto wedi cyrraedd 19 oed ar neu cyn 31 Awst 2025, sydd yn uwch na chost y gwasanaethau a ddarperir.

89. Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach gydymffurfio â gofynion cyfreithiol fel a ganlyn:

a. Sicrhau bod yr holl staff addysgu a staff cymorth dysgu wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg cyn iddynt dechrau eu cyflogaeth;
b. Cyfeirio achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad, cymhwysedd ac euogfarnau troseddol i sylw Cyngor y Gweithlu Addysg, os byddwch yn diswyddo aelod staff neu os gallech fod wedi'u diswyddo os nad oeddent wedi gadael; a
c. Hysbysu Medr yn ysgrifenedig am unrhyw amgylchiadau lle bo staff yn cael eu cyfeirio i Gyngor y Gweithlu Addysg am faterion a allai gael eu hystyried yn dwyllodrus. Bydd twyllodrus yn y cyd-destun hwn yn cynnwys sefyllfaoedd lle rhoddwyd dyfarniadau'n amhriodol (drwy gamgynrychioli lefel y cyrhaeddiad a gafwyd) a allai gael ei gamddeall fel enillion i'r contractwr ac/neu, y dibynnu ar eu telerau ac amodau, y cyflogai.

90. Os yw Sefydliadau Addysg Bellach yn trosglwyddo arian a ddarperir gan Medr i endid cyfreithiol ar wahân arall, maen nhw'n parhau i fod yn atebol am yr arian a rhaid iddyn nhw gynnal digon o oruchwyliaeth fel y gallant sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddibenion cymwys o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Rhaid i'r oruchwyliaeth hon gwmpasu, ymhlith meysydd eraill, atebolrwydd ariannol a sicrhau ansawdd. Rhaid i'r ddwy ochr gytuno ar ddatganiad ysgrifenedig o'r trefniadau. Rhaid i'r datganiad hwn sicrhau nad yw'r gadwyn atebolrwydd ar gyfer defnyddio cyllid Medr yn cael ei thorri, a bod rhannau perthnasol y telerau ac amodau cyllid hyn yn berthnasol i ddefnyddiwr terfynol y cyllid.

91. Rhaid i'r sefydliad ddefnyddio unrhyw gyllid y mae Medr wedi'i glustnodi i ddiben refeniw neu gyfalaf penodol i'r dibenion hynny'n unig.

### *Gofyniad am Ddysgu Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog*

92. Mae gan sefydliadau gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

93. Mae'n ofynnol i sefydliadau fod â strategaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi'i diweddaru sy'n ymdrin yn benodol â'r ddarpariaeth ddysgu, gan alluogi dysgwyr i barhau â'u sgiliau Cymraeg. Dylai'r strategaeth ddangos hefyd sut y mae'r sefydliad yn cyfrannu tuag at Cymraeg 2050; bydd hyn yn ychwanegol at gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Rhaid i sefydliadau ddarparu copi o'u strategaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ddiweddaraf os yw Medr yn gofyn.

94. Mae'n ofynnol i sefydliadau gefnogi datblygiad y Gymraeg fel sgìl yn y gweithle a hyrwyddo'r defnydd o addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn unol â nodau Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg; sef, yn benodol: '*datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle*'.

95. Rhaid i sefydliadau gynllunio i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy greu ethos lle gall dysgwyr ymgysylltu'n rhagweithiol â'r Gymraeg ym mhob amgylchedd cymdeithasol a dysgu.

96. Mae [Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg ] yn nodi rhaglen i gefnogi addysg a hyfforddiant ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac mae'n ofynnol i bob Sefydliad Addysg Bellach ymateb yn briodol drwy gynyddu eu darpariaeth yn unol â nodau strategol y Cynllun Gweithredu:

a. targedau sefydliadol ar gyfer cyflwyno dysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog sy'n adlewyrchu anghenion yr ardal a blaenoriaethau'r coleg;
b. targedau i sicrhau bod o leiaf 50% o'r holl ddysgwyr sydd â chymhwyster TGAU Cymraeg iaith gyntaf, yn dilyn eu cymwysterau yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg (wedi'i gofnodi fel C1 neu B1 ym maes LLWR LA26), yn y sectorau blaenoriaeth canlynol:
    - Iechyd a Gofal Cymdeithasol
    - Gofal plant
    - Gwasanaethau Cyhoeddus
    - Amaethyddiaeth
    - Adeiladu
    - Busnes
    - Chwaraeon a Hamdden
    - Y Diwydiannau Creadigol
c. trefniadau ar gyfer cofnodi dewis iaith a sgiliau Cymraeg dysgwyr, a chofnodi eu dysgu a'u hasesiadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
d. trefniadau i bob dysgwr sydd â chymhwyster TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith dderbyn elfennau wedi'u cynllunio o weithgarwch cyfrwng Cymraeg yn eu dysgu i ddangos hyder a hyfedredd iaith sy'n briodol i'w lefel, gan gynnal a datblygu eu sgiliau ar gyfer y gweithle drwy hynny; mynd i'r afael â'r Model Datblygu Sgiliau yn y Cynllun Gweithredu (Ffigur 1, tudalen 6);
e. trefniadau ar gyfer recriwtio a/neu ddatblygu staff i ddarparu gwasanaethau a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog;
f. trefniadau partneriaeth â rhanddeiliaid a chyflogwyr eraill, i gefnogi unigolion sy'n dymuno dysgu a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg;
g. amcanion clir ar gyfer datblygu gweithgareddau ac adnoddau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i gefnogi'r ddarpariaeth; a
h. threfniadau ar gyfer marchnata a hyrwyddo eich darpariaeth cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog.

97. Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach sicrhau eu bod yn cyflwyno data cywir ac amserol drwy faes LA26 y LLWR ar gyfer gweithgaredd a wneir yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r canllawiau yn [Cofnodi dysgu cyfrwng Cymraeg].

98. Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach sicrhau eu bod yn cyflwyno data cywir ac amserol drwy faes LP67 y LLWR mewn perthynas â lefel y cymhwyster Cymraeg uchaf a gyflawnwyd cyn y rhaglen ddysgu.

### *Cymalau cyllido penodol*

99. Gall Awdurdodau gadw hyd at 3% o'r Cyllid a ddarperir ar gyfer darpariaeth Chweched Dosbarth i'w wario ar wasanaethau gweinyddol a chanolog gan eu hadran addysg. Os yw Awdurdodau Lleol yn dymuno cynyddu'r ganran hon yn uwch na 3%, bydd angen caniatâd Medr, a bydd angen cadarnhad hefyd bod Cadeirydd Llywodraethwyr pob ysgol uwchradd o fewn yr Awdurdod Lleol yn cytuno â hynny.

100. Gall Awdurdodau Lleol gadw hyd at 3% o'r Cyllid a ddarperir ar gyfer darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned i'w wario ar wasanaethau gweinyddol a chanolog gan eu hadran addysg. Os yw Awdurdodau Lleol yn dymuno cynyddu'r ganran hon yn uwch na 3%, bydd angen caniatâd Medr, a bydd angen cadarnhad hefyd bod y Cyfarwyddwr Addysg ac aelodau'r Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cytuno â hynny.

101. Gall Awdurdodau Lleol ddefnyddio hyd at 5% o gyllid Dysgu Cymunedol i Oedolion ar gyfer Gweithgareddau Ymgysylltu. Dylid darparu adroddiad terfynol a Datganiad Gwariant diwedd blwyddyn i Medr o fewn mis ar ôl y dyddiad rhewi LLWR perthnasol ym mis Medi, gan amlinellu sut y cafodd y cyllid ei wario.

102. Mae'n ofynnol i Sefydliadau Addysg Bellach gyrraedd 97% o'u targed ariannol ar gyfer darpariaeth Rhan-amser. Ceir ad-hawliad llawn am unrhyw ddarpariaeth sy'n is na'r lefel hon.

103. Gall Sefydliadau Addysg Bellach ddefnyddio hyd at 5% o'r cyllid Rhan-Amser ar gyfer Gweithgareddau Ymgysylltu. Dylid darparu adroddiad terfynol a Datganiad Gwariant diwedd blwyddyn i Medr o fewn mis ar ôl y dyddiad rhewi LLWR perthnasol ym mis Medi, gan amlinellu sut y cafodd y cyllid ei wario.

104. Mae'n ofynnol i sefydliadau gyrraedd 95% o'u targed ariannol ar gyfer Adfer a Chynnydd Dysgwyr (LRP). Bydd unrhyw ddarpariaeth sy'n is na'r lefel hon yn cael ei hadennill yn llawn. Gall sefydliadau ddefnyddio hyd at 10% o gyllid LRP i weithredu strategaethau er mwyn helpu i wella ymddygiad a phresenoldeb.

### *Cyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol i Medr*

105. Rhaid i'r sefydliad roi mynediad i Medr i'r holl lyfrau, cofnodion, gwybodaeth, systemau ac asedau[3]. Gall Medr ofyn i unrhyw swyddog roi unrhyw esboniad a ystyrir yn angenrheidiol ganddo er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau. Bydd llyfrau a chofnodion y sefydliad hefyd ar gael i'w harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

106. Os yw'r sefydliad yn cael gordaliad grant yn sgil defnydd Medr o ddata amcangyfrifedig, bydd Medr yn cadw'r hawl i adennill unrhyw ordaliad.

107. Rhaid i sefydliadau ddarparu data y maent wedi'u casglu i Medr neu i gyrff eraill sy'n gweithredu ar ran Medr. Ar hyn o bryd, mae'r Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) yn gweithredu fel asiantau ar gyfer y sefydliadau ac ar gyfer Medr drwy gasglu gwybodaeth sy'n ofynnol gan Medr a throsglwyddo'r wybodaeth honno i Medr a/neu i Lywodraeth Cymru.

108. Bydd y data yn aml yn cynnwys manylion personol dysgwyr. Er mwyn sicrhau y gall sefydliadau a Medr gyflawni eu dyletswyddau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018, rhaid i sefydliadau eu

[3]Mae gofynion chweched dosbarth awdurdodau lleol yn deillio o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg bellach yng Nghymru gynnal llyfrau a chofnodion craidd fel y nodir yn y Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006.

bodloni eu hunain, wrth gasglu data, fod dysgwyr yn ymwybodol bod data yn cael eu casglu i'r dibenion hyn. Rhaid i sefydliadau hysbysu dysgwyr y bydd eu data personol yn cael eu cyflwyno i CYBLD neu LLWR a rhaid iddynt ddarparu fersiwn ddiweddaraf Gwybodaeth rheoli data: hysbysiad preifatrwydd neu Hysbysiad preifatrwydd LLWR i'r holl destunau data perthnasol. Bydd y sefydliad yn cydweithredu â Medr fel bo'r angen yn rhesymol er mwyn sicrhau bod CYBLD ac LLWR ac unrhyw asiantau eraill i Medr, yn gallu cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth uchod wrth brosesu gwybodaeth a gyflenwir gan y sefydliad.

109. Rhaid i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a chywir i Medr, CYBLD, LLWR neu sefydliadau eraill ar gais Medr, am y dysgwyr sydd wedi ymrestru gyda'r sefydliad ac am y rhaglenni dysgu sy'n gysylltiedig â'r dysgwyr hynny, ac unrhyw ddata eraill sydd eu hangen, boed hynny i gyfrifo cyllid neu i ddibenion adrodd a dadansoddi eraill.

110. Cynhelir gwiriadau dilysu ar y data a ddarperir gan sefydliadau ac a ddefnyddir i ddibenion cyllido gan Medr. Ceir esboniad o'r diffiniadau a ddefnyddir ar y datganiadau data yn y Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion: nodiadau cwblhau technegol a'r Llawlyfr cymorth defnyddwyr LLWR ar gyfer darparwyr dysgu.

111. Rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â'r Fframwaith Cynllunio a Chyllido a Chyfeiriadur Rhaglenni Ôl-16 a Adrodd am wybodaeth am ysgolion a disgyblion: rheoliadau neu Egwyddorion Rheoli Data Ôl-16[4], a rhoi gwybod i Medr am unrhyw dramgwyddo.

112. Roedd yr Egwyddorion Rheoli Data Ôl-16 yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan Sefydliadau Addysg Bellach o ran:
   a. Cywirdeb – sicrhau bod data yn cael eu mewnbynnu i'r System Rheoli Data Ôl-16 yn y fformat cywir. I fod yn gywir, rhaid i werth y data gyfateb â'r gwerth cywir, a rhaid iddo gael ei gynrychioli mewn modd cyson a diamwys.
   b. Amseroldeb – sicrhau y cyflwynir data i'r System Rheoli Data Ôl-16 o fewn y ffrâm amser ddisgwyliedig.
   c. Uniondeb – sicrhau bod cyflwyniad data a'r rheolaeth ar ddata yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r dysgu/gweithgareddau a ddarparwyd, a'r canlyniadau a gyflawnwyd gan ddysgwr/unigolyn.
   d. Cyflawnder – sicrhau bod yr holl setiau data perthnasol wedi'u cyflwyno i LLWR.
   e. Cysondeb – sicrhau bod gwerthoedd yn gyson ar draws yr holl setiau data.

### *Partneriaethau a rhannu data*

113. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad thematig Estyn Partneriaethau Ôl-16 - Cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau, dylai colegau sicrhau eu bod yn dilyn argymhelliad 4 yn yr adroddiad.

114. Yn dilyn cyhoeddi dogfen Llywodraeth Cymru Pontio ôl-16 a rhannu data yn effeithiol: canllaw byr i ysgolion a darparwyr dysgu ôl-16, dylai sefydliadau roi sylw i bwysigrwydd cyflwyno gwybodaeth gywir am raglenni y mae dysgwyr yn eu gwneud, gan gynnwys darparwr pob gweithgaredd dysgu, fel rhan o gyflwyno eu data.

[4] DS: Mae angen cyfrif LLWR Inform er mwyn cael mynediad i'r ddogfen. Ar gael yn unig yn Saesneg.

### *Rheoli'r ystâd yn ddoeth*

115. Dylid cynnal arolwg rheolaidd o gyflwr yr ystadau a rhoi ystyriaeth i hynny yn y strategaeth ystadau.

116. Rhaid i sefydliadau ddatblygu strategaeth a chynllun rheoli carbon. Dylai cynnydd yn erbyn y strategaeth a'r cynllun gael ei fonitro trwy'r strwythur llywodraethu.

117. Dylai sefydliadau weithio tuag at gyrraedd Sero Net.

118. Dylai sefydliadau adolygu eu daliadau tir ac adeiladau'n gyson, gan amcanu at resymoli a gwaredu'r rhai nad oes mo'u hangen mwyach ym marn sefydliadau.

119. Dylid gweithredu prosesau i sicrhau bod gofod yn cael ei reoli'n effeithiol o fewn y sefydliad.

### *Paratoi datganiadau ariannol ac archwilio*

120. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi datganiadau cyllideb a datganiadau alldro ar gyfer pob ysgol a gynhelir, gan gynnwys y chweched dosbarth. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn y Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002, a Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003.

121. Rhaid paratoi datganiadau ariannol ar gyfer y sefydliadau addysg bellach yn unol â FRS 102 a'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019.

122. Rhaid i'r sefydliad drefnu bod copïau o'r datganiadau ariannol cyfunol ar gael yn gyhoeddus ar eu gwefan mewn modd amserol ac yn unol â'r canllawiau uchod.

123. Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb ac atebolrwydd wrth adrodd ar arian cyhoeddus, rhaid i sefydliadau a'u harchwilwyr allanol gydymffurfio â *Chyfarwyddyd Cyfrifon Llywodraeth Cymru,* sef y canllawiau ffurfiol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n esbonio sut y mae'n rhaid i sefydliadau baratoi eu cyfrifon cyfunol blynyddol.

124. Rhaid i'r datganiadau ariannol gael eu llofnodi gan swyddog atebol a chan y Cadeirydd neu aelod arall o'r corff llywodraethu a benodir gan y corff hwnnw. Os yw'r sefydliad yn gwmni, bydd gofynion Deddf Cwmnïau 1985 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cwmnïau 1989) yn berthnasol ar gyfer llofnodwyr y datganiadau ariannol.

125. Rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn natganiadau ariannol archwiliedig ac adroddiadau cysylltiedig y sefydliad:
   a. Rhaid i'r aelodau gadarnhau yn yr adroddiad blynyddol eu bod wedi cynnal asesiad cadarn o'r prif risgiau a'r ansicrwydd perthnasol sy'n wynebu'r sefydliad, gan gynnwys y rhai a fyddai'n bygwth ei fodel busnes, ei berfformiad yn y dyfodol, ei solfedd neu ei hylifedd. Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio'r risgiau hynny ac egluro sut maent yn cael eu rheoli neu eu lliniaru;
   b. Datganiad gan yr aelodau ynghylch a ydynt yn ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau

ariannol, ar ôl ystyried y prif risgiau ac ansicrwydd perthnasol sy'n bodoli dros gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol;

c. Disgrifiad o bolisi'r corff llywodraethu ar amrywiaeth ac aelodaeth, gan gynnwys rhywedd; unrhyw amcanion mesuradwy y mae wedi'u gosod ar gyfer gweithredu'r polisi; a chynnydd o ran cyflawni'r amcanion.

126. Gall Medr ddarparu rhagor o fanylion a gofynion ychwanegol yn gysylltiedig â'r uchod yng nghyfarwyddyd cyfrifon Medr i sefydliadau.

### *Hawl mynediad Medr ar gyfer ymchwiliadau*

127. Gall Medr gynnal unrhyw ymchwiliadau sy’n angenrheidiol yn ei dyb ef. Gellir didynnu'r cyfan neu ran o gost ymchwiliadau ychwanegol o’r fath, lle mae amgylchiadau’n teilyngu hynny, o grant refeniw’r sefydliad. Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal astudiaethau gwerth am arian o ddefnydd y sefydliad o adnoddau hefyd.

128. Gall archwilwyr mewnol Llywodraeth Cymru ac/neu Archwilio Cymru ddod gyda Medr i ymweld â'r sefydliad Ar ymweliadau o'r fath, ni fydd archwilwyr Llywodraeth Cymru ac/neu Archwilio Cymru ond yn trafod y modd y mae Medr yn cyflawni tasgau, ac ni fyddant hwy eu hunain yn archwilio trefniadau o fewn y sefydliad.

## Materion Eraill

### *Diwygiadau i'r ddogfen hon*

129. Gall Medr ddiwygio unrhyw un neu rai o’r telerau ac amodau yn y ddogfen hon, eu dirymu neu ychwanegu atynt, o bryd i’w gilydd, a hynny ar ôl ymgynghori â’r sefydliad a pha bynnag gyrff sy’n cynrychioli’r sefydliad. Gall y sefydliad ei hun gyflwyno cynigion i Medr ar gyfer newidiadau o’r fath.

### *Dehongli datganiadau yn y ddogfen hon*

130. Bydd Medr yn datrys cwestiynau ynghylch dehongli unrhyw ddatganiad yn y ddogfen hon ar ôl ymgynghori â'r sefydliad a'r cyrff hynny sy'n cynrychioli'r sefydliad a ystyrir yn briodol gan Medr.

## Llofnod y Swyddog Atebol

131. Rhaid i swyddog atebol enw'r sefydliad nodi isod ei fod wedi derbyn a chymeradwyo'r Telerau ac Amodau Cyllid, sy'n esbonio'r telerau ac amodau ar gyfer taliadau cyllid gan Medr i gorff llywodraethu enw'r sefydliad o'r cyllid a ddarperir gan Weinidog Addysg Cymru.

Llofnod ..............................................................................

Dyddiedig ..............................................................................

## Llofnod y Cyfarwyddwr Cyllid (neu gyfwerth)

132. Rhaid i Gyfarwyddwr Cyllid enw'r sefydliad nodi isod ei fod wedi derbyn a chymeradwyo'r Telerau ac Amodau Cyllid, sy'n esbonio'r telerau ac amodau ar gyfer taliadau cyllid gan Medr i gorff llywodraethu enw'r sefydliad o'r cyllid a ddarperir gan Weinidog Addysg Cymru.

Llofnod ..............................................................................

Dyddiedig ..............................................................................

## Atodiad A: Geirfa

Yn y Telerau ac Amodau Cyllid hyn, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

| | |
|---|---|
| Blwyddyn academaidd | Y 12 mis o 1 Awst i 31 Gorffennaf |
| Swyddog atebol | Pennaeth sefydliad sy'n gyfrifol ac yn atebol i Medr (ac yn y pen draw i Senedd Cymru) am sicrhau bod y sefydliad yn defnyddio arian Medr mewn ffyrdd sy'n gyson â'r dibenion y rhoddwyd yr arian hwnnw ar eu cyfer ac yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth hynny. |
| Cyfnod cyfrifyddu | Y cyfnod a gwmpesir gan ddatganiadau ariannol archwiliedig y sefydliad, fel arfer y 12 mis o 1 Awst i 31 Gorffennaf |
| FRS | Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac Iwerddon |
| Corff llywodraethu | Cyngor y sefydliad, bwrdd llywodraethwyr neu gorff arall sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli a gweinyddu refeniw ac eiddo'r sefydliad, a chynnal ei faterion |
| Sefydliadau | Yn cyfeirio at Chweched Dosbarth yr Awdurdod Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach |
| LLWR | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| Mis | Mis calendr |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| Y sefydliad | enw'r sefydliad |
| Deddf 2000 | Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 |
| Deddf 2006 | Deddf Llywodraeth Cymru 2006 |
| Gwendid difrifol | Diffinnir 'gwendid difrifol' fel un sydd wedi arwain at, neu a allai arwain at, golli swm sylweddol o arian neu risg sylweddol i eiddo, gwaith, data, buddiolwyr neu enw da sefydliad. |

Wrth gyfeirio at y **sefyllfa ariannol**, **datganiadau ariannol**, **ymrwymiadau ariannol** neu **fenthyciadau'r sefydliad** yr hyn a olygir yw sefyllfa ariannol, datganiadau ariannol, ymrwymiadau ariannol neu fenthyciadau cyfunol y sefydliad a'i is-gyrff, fel y'u diffiniwyd yn Neddf Cwmnïau 1985 ac y'u diwygiwyd yn Neddf Cwmnïau 1989, ac yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.